# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

SC(3)-12-08 (p2): 4 Mehefin 2008

Papur ar Gyfer Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 4 Mehefin 2008 Paratowyd gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol

### 1 Cefndir (T1)

Hanes
Dogfennau allweddol o ran datblygu'r Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft
Pecyn y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft
Cymhwyso'r Mesur i Gymru

#### 2 Cynnwys y Mesur (T4)

Rhan 1 - Sefydliad Rheoli Morol
Rhan 2 - Cynllunio Morol
Rhan 3 - Trwyddedu Morol
Rhan 4 - Parthau Cadwraeth Forol
Rhan 5 - Safleoedd Cadwraeth Eraill
Rhan 6 - Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth
Rhan 7 - Pysgodfeydd
Rhan 8 - Gorfodi
Rhan 9 - Mynediad Arfordirol
Rhan 10 - Amrywiol
Rhan 11 - Darpariaethau atodol

### 3 Cyflawni'r Mesur yng Nghymru (T8)

Cyffredinol
Cynllunio Morol
Trwyddedu Morol
Cadwraeth Natur Forol
Mynediad Arfordirol
Pysgodfeydd
Cyflawni

#### 1 - Cefndir

#### Hanes

1. Awgrymodd canfyddiadau cyfres o adolygiadau ac adroddiadau yn dyddio o'r adroddiad ar Stiwardiaeth Forol yn 2002 fod angen dull newydd o reoli pob gweithgaredd morol a'i bod yn ofynnol cyflwyno deddfwriaeth i weithredu'r dull hwnnw.

2. Yn strategaeth pum mlynedd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2004, nodwyd cynlluniau i ddatblygu Mesur Morol. Ategwyd hyn yn araith bwysig Elliot Morley AS i'r gynhadledd Coastal Futures ym mis Ionawr 2005 (1), a amlinellodd gwmpas a buddiannau posibl Mesur Morol.

3. Bu cyrff anllywodraethol yn ymgyrchu dros gael Mesur Morol ers sawl blwyddyn, yn enwedig WWF a'r Gymdeithas Gadwraeth Forol (MCS). Ym mis Ionawr 2005, cyhoeddodd WWF Fesur Morol drafft (2) yn nodi'r hyn yr hoffai ei weld mewn deddfwriaeth o'r fath.

#### Dogfennau allweddol o ran datblygu'r Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft

#### 2002

·Safeguarding our Seas – Marine Stewardship report (3) - a nododd weledigaeth y DU ar gyfer 'moroedd diogel, iach, cynhyrchiol a biolegol amrywiol'

#### 2004

Turning the Tide: addressing the impact of fisheries on the marine environment – adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Lygredd Amgylcheddol (4)

#### 2005

Charting Progress: an integrated assessment of the state of UK seas (5) - yr adroddiad cyntaf yn y gyfres 'Charting Progress' sy'n nodi cyflwr presennol moroedd y DU ac sy'n helpu i fesur y cynnydd a wnaed tuag at wireddu'r weledigaeth. Mae gwaith wedi dechrau i baratoi Charting Progress 2 i'w gyhoeddi yn 2010.

#### 2006

Mesur Morol: dogfen ymgynghori - yr ymgynghoriad cyntaf (6) -

Crynodeb o'r ymatebion (7)

·Crynodeb o'r ymatebion o Gymru (8)

#### 2007

·A Sea Change – A Marine Bill White Paper (9)

·Crynodeb o'r ymatebion (10)

·Crynodeb o'r ymatebion o Gymru (11)

·AERh o'r Mesur Morol yng Nghymru - Adroddiad sylfaenol (12)

·AERh o'r Mesur Morol yng Nghymru - Asesiad o'r dewisiadau (13)

·Cyngor PAMC i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr agweddau ymarferol ar gynllunio gofodol morol i Gymru (14)

·Ymateb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i gyngor PAMC (15)

#### 2008

·Pecyn y Mesur Morol drafft (16)

#### Pecyn y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft

4. Lansiwyd Pecyn Mesur Mynediad Morol ac Arfordirol drafft ar 3 Ebrill ac roedd yn cynnwys:

·Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft - 11 rhan i'r Mesur a 12 Atodlen

·Nodiadau Esboniadol - sy'n egluro'r hyn y bydd y cymalau yn y Mesur yn ei wneud. Nid ydynt yn nodi sut y caiff y Mesur ei ddefnyddio.

·Asesiad Effaith

·Dogfen bolisi – yn egluro'n gyffredinol sut y caiff y Mesur ei ddefnyddio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gweinyddiaethau eraill wedi cyfrannu testun at hyn gan egluro sut y mae pethau yn debyg a lle y gall fod gwahaniaethau.

5. Cyhoeddodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA) Ty'r Cyffredin ar 4 Mawrth y byddai'n craffu ar y Mesur cyn y broses ddeddfu.

6. Ar 24 Ebrill, cyhoeddodd Pwyllgor EFRA y byddai'n craffu ar ddarpariaethau mynediad arfordirol y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft. Dim ond i Loegr y mae'r darpariaethau hyn yn gymwys (gweler adran 5 ar Fynediad Arfordirol yn rhan 3 i gael gwybodaeth am fynediad arfordirol mewn perthynas â Chymru). Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yw 19 Mai.

7. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Mesur drafft yn dod i ben ar 26 Mehefin. Nid oes unrhyw gwestiynau ymgynghori penodol ond gwahoddir sylwadau ar becyn y Mesur drafft.

8. Bydd Pwyllgor ad-hoc ar y cyd o'r ddau Dy yn craffu ar y Mesur drafft hefyd. Caiff manylion y broses graffu a galwadau am dystiolaeth eu cyhoeddi gan y Pwyllgor ar wefan dau Dy'r Senedd.

9. Nid oedd rhai cymalau'r Mesur yn barod i'w cynnwys yn y fersiwn drafft cyhoeddedig. Erys nifer o faterion drafftio i ymdrin â hwy o hyd hefyd a meysydd eraill lle y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Defra yn gweithio o hyd i gydbwyso'r cydadwaith rhwng cyfrifoldebau datganoledig a rhai annatganoledig, megis sut y cytunir ar gynlluniau morol. Mae'r Mesur cyhoeddedig ar ffurf ddrafft a disgwylir y bydd angen gwneud newidiadau.

10 . Caiff y newidiadau y bydd angen eu gwneud o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gwaith craffu cyn y broses ddeddfu eu gwneud cyn cyflwyno'r Mesur gerbron y Senedd.

11. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth i broses graffu'r Senedd, oni elwir arni i wneud hynny. Nid ydym o'r farn y byddai'n briodol i ni gynnig sylwadau ar fersiwn drafft nad ydym wedi cymryd rhan fanwl yn y broses o'i ddatblygu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i'r Pwyllgor ofyn am dystiolaeth am ddatganoli a'r Mesur.

12. Y nod yw cyflwyno'r Mesur gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl yn sesiwn Seneddol 2008/09 tuag at ddiwedd y flwyddyn galendr hon.

13. Cynhwyswyd Mesur Morol a Mynediad Arfordirol yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol Ddrafft a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog, Gordon Brown, AS ar 14 Mai 2008.

**Cymhwyso'r Mesur i Gymru**

14. Mesur y DU yw'r Mesur Morol a Mynediad Arfordirol ond mae'n gymwys i weinyddiaethau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r Mesur yn gymwys i Gymru a Lloegr.

15. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ystod y cyfnod cyfan lle y mae'r Mesur drafft wedi'i ddatblygu i sicrhau y gall cymalau a darpariaethau yn y Mesur drafft ddarparu trefniadau hyblyg i ddiwallu anghenion Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

16. .Ar y cyfan, lle y rhoddir pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, fe'u rhoddir i Weinidogion Cymru hefyd, lle y mae'r pwerau hynny wedi'u datganoli.

17. Efallai y bydd rhai cymalau yn berthnasol i Gymru a Lloegr, rhai i Gymru yn unig, rhai i Loegr yn unig a rhai i ardaloedd y DU y tu hwnt i foroedd tiriogaethol (y tu hwnt i 12 môr-filltir). Nodir hyn yn gryno yn adran 2 isod.

**2 - Cynnwys y Mesur**

**Rhan 1 - Sefydliad Rheoli Morol**

1. Mae'r rhan hon yn ymdrin â chreu a gweithredu Sefydliad Rheoli Morol, gan gynnwys:

·Ei sefydlu, pwerau, dyletswyddau a chyllid.

·Trosglwyddo swyddogaethau i'r Sefydliad Rheoli Morol - sicrhau mai'r Sefydliad Rheoli Morol yw'r awdurdod priodol ar gyfer nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth o ran pysgodfeydd a chadwraeth natur.

·Pwerau i wneud trefniadau gweinyddol hyblyg gyda sefydliadau eraill.

·Mae Atodlen 1 yn rhoi manylion y Sefydliad Rheoli Morol, gan gynnwys strwythur y Bwrdd, staff, pensiynau, adroddiadau blynyddol a chyfrifon.

·Mae Atodlen 2 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn ymwneud â'r Sefydliad Rheoli Morol.

2. Bydd y Sefydliad Rheoli Morol yn gweithredu yn nyfroedd alltraeth Lloegr a'r DU yn bennaf. Bydd ganddo swyddogaethau yng Nghymru mewn perthynas â chyfrifoldebau annatganoledig megis porthladdoedd nad ydynt yn bysgodfeydd.

**Rhan 2 - Cynllunio Morol**

3. Yn cynnwys cymalau sy'n creu system cynllunio morol:

Y gallu i wneud datganiad polisi morol, cytuno arno, ei ddiwygio a'i dynnu'n ôl.

·Y gallu i wneud cynlluniau morol, cytuno arnynt, eu diwygio a'u tynnu'n ôl

·Effaith cynlluniau morol ar benderfyniadau

·Y gallu i gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus

·Monitro a chyflwyno adroddiadau

·Mae Atodlen 4 yn rhoi'r manylion ar gyfer creu Datganiad Polisi Morol, gan gynnwys camau paratoi, cyfranogiad y cyhoedd ac ymgynghori, a mabwysiadu'r Datganiad Polisi Morol.

·Mae Atodlen 5 yn rhoi'r manylion ar gyfer cynlluniau morol, gan gynnwys hysbysu awdurdodau cynllunio cyfagos, cyfranogiad y cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd, arfarnu cynllun, ymchwiliad annibynnol i gynllun drafft a'i fabwysiadu'n derfynol.

**Datganiad polisi morol**

4. Nid yw dyfroedd tiriogaethol yr Alban wedi'u cynnwys yn yr ardal a gwmpesir gan ddogfen polisi morol. Mae Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu nad yw am fod yn rhan o'r broses ar yr adeg hon.

**Awdurdodau cynlluniau morol**

5. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynlluniau morol ar gyfer dyfroedd mewndirol Cymru.

6. Yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod cynlluniau morol ar gyfer dyfroedd mewndirol Lloegr a dyfroedd alltraeth Prydain Fawr. Yn rhanbarth alltraeth yr Alban, dim ond swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol y gellir eu cynnwys mewn cynllun.

7. Yr Ysgrifennydd Gwladol ac Adran Amgylchedd Gogledd Iwerddon yw'r awdurdod cynlluniau ar y cyd ar gyfer ardal alltraeth Gogledd Iwerddon.

8. Nid yw dyfroedd tiriogaethol Gogledd Iwerddon a dyfroedd tiriogaethol yr Alban wedi'u cynnwys mewn cymalau i greu cynlluniau morol. Bydd Gogledd Iwerddon a'r Alban yn deddfu ar gyfer cynllunio morol eu hunain.

**Rhan 3 - Trwyddedu Morol**

9. Prif agweddau'r Rhan Drwyddedu o'r Mesur yw:

Dod â nifer o gyfundrefnau trwyddedu gwahanol ynghyd a chreu rhestr ehangach o weithgareddau trwyddedadwy o dan Drwydded y Ddeddf Forol:

·Caiff caniatâd Rhan 2 Deddf Diogelu'r Arfordir 1949 mewn perthynas â mordwyo ac effeithiau diogelwch mordwyo gweithgaredd ei gyfuno â Rhan 2 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985.

·Bydd pob math o garthu, gan gynnwys carthu agregau morol yn drwyddedadwy.

·Bydd angen trwydded ar bob llong, awyren neu strwythur, waeth yma mha wlad y'i tarddodd ar gyfer gweithgareddau os cyflawnir y gweithgareddau hynny yn ardal drwyddedu forol y DU.

·Pwerau ehangach i osod amodau ar drwyddedau ar gyfer oes y prosiect, yn hytrach na dim ond y cam adeiladu.

·Pwer i benderfynu ar geisiadau am weithgareddau a fyddai'n gofyn am nifer o drwyddedau ar hyn o bryd, fel un cais am drwydded

·Adennill costau'n llawn, gyda'r Awdurdod Trwyddedu yn pennu'r ffioedd

·Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cadw cofnod o wybodaeth yn ymwneud â cheisiadau a thrwyddedau a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd

·Pwerau gorfodi ehangach – hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, hysbysiad atal, cosbau ariannol penodedig ac amrywiol a'r gallu i dderbyn 'ymgymeriadau gorfodi' h.y. camau i'w cymryd yn lle erlyn.

10. Gweinidogion Cymru fydd yr Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf Forol.

11. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio, drwy Orchymyn, y rhestr o weithgareddau trwyddedadwy a nodir yn y Mesur;

12. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu eithrio rhai gweithgareddau o'r angen am drwydded neu nodi amodau a fydd yn golygu y gellir eithrio'r gweithgaredd, os caiff yr amodau eu cyflawni;

13. Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach o ran y weithdrefn i'w dilyn ar gyfer gwneud cais am drwyddedau o dan y Ddeddf Forol a'u rhoi.

### Rhan 4 - Parthau Cadwraeth Forol

14. Sefydlu system dynodi a diogelu Parthau Cadwraeth Forol er mwyn gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion eraill o ddiddordeb.

15. Rhoi pwerau i wneud gorchmynion sy'n dynodi safleoedd ac sy'n nodi'r amcanion cadwraeth ar gyfer y safle gan ystyried y canlyniadau economaidd a chymdeithasol yn sgîl gwneud hynny, lle y bo'n briodol.

16. Bydd dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo amcanion cadwraeth Parthau Cadwraeth Forol, neu mewn ffyrdd sy'n rhwystro'r amcanion hyn rhag cael eu cyflawni cyn lleied â phosibl.

17. Bydd y corff cadwraeth statudol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru yng Nghymru) yn gallu rhoi canllawiau a chyngor ynghylch Parthau Cadwraeth Forol.

18. Yn rhoi pwerau i wneud gorchmynion sy'n sicrhau y diogelir safleoedd yn briodol yng ngoleuni amcanion cadwraeth safle, gan gynnwys:

·mesurau i atal gweithgareddau rhag difrodi safle.

·rheoli gweithgareddau na chânt eu rheoleiddio ar hyn o bryd megis sgïo jet, angori cychod neu snorcelu. Caiff gorchmynion eu defnyddio i reoli gweithgareddau penodol - gwella eglurder i'r rhai sy'n defnyddio'r môr a symleiddio'r broses o orfodi troseddau cadwraeth natur.

·Creu cosbau am dorri gorchymyn - cosbau gweinyddol penodedig, ymgymeriadau gwirfoddol, dirwy o hyd at £50,000.

19. Yn rhoi pwerau i wneud gorchmynion interim sy'n sicrhau y diogelir ardal yn briodol yn ystod y broses o ystyried a ddylid dynodi'r ardal honno yn Barth Cadwraeth Forol, mewn achosion lle y ceir angen dybryd i ddiogelu'r nodwedd(ion) o ddiddordeb a geir yn yr ardal dan sylw.

20. Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod dynodi a gwneud gorchmynion cadwraeth ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd tiriogaethol Cymru.

### Rhan 5 - Safleoedd Cadwraeth Eraill

21. Mae'r Rhan hon yn rhoi'r gallu i newid ffiniau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC) y tu hwnt i'w cwmpas arferol os yw'n briodol gwneud hynny er mwyn diogelu'r cynefin cyfan.

### Rhan 6 - Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth

22. Yn rhoi'r gallu i sefydlu Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth er mwyn rheoli pysgodfeydd y glannau hyd at 12 môr-filltir ac yn nodi aelodau'r Awdurdodau hynny a'r broses o'u cyllido a'u gweithredu.

23. Yn ymwneud â Chymru a Lloegr.

### Rhan 7 - Pysgodfeydd

24. Yn darparu ar gyfer newidiadau amrywiol i ddeddfwriaeth pysgota môr, rheoli pysgod cregyn a physgodfeydd mudol a dwr croyw:

Y gallu i gyflwyno trwydded genweirio môr hamdden y gellir codi tâl amdani

·Yn dirymu sawl hen ddeddf pysgodfeydd

### Rhan 8 - Gorfodi

25. Mae'r Rhan hon yn creu darpariaethau mewn perthynas â gorfodi pysgodfeydd morol, cadwraeth natur a thrwyddedu:

·Penodi swyddogion gorfodi - Cymru, Lloegr ac ardal alltraeth, Gogledd Iwerddon, Swyddogion Pysgodfeydd Môr Prydeinig a phersonél y lluoedd arfog.

·Yn creu cyfres o bwerau gorfodi cyffredin y gall pob swyddog gorfodi eu defnyddio - yn symleiddio ac yn gwella trefniadau presennol lle y mae'r pwerau yn wahanol o dan ddeddfwriaeth wahanol. Ymhlith y pwerau mae - mynd ar longau a'u harchwilio, mynd i mewn i safleoedd a cherbydau a'u harchwilio, atafaelu eitemau, mynnu gwybodaeth a llunio dogfennau.

·Creu pwerau mwy penodol ar gyfer gorfodi deddfwriaeth drwyddedu, cadwraeth a physgodfeydd, wedi'u teilwra i'r sefyllfa ym mhob cyfundrefn.

·Dyletswyddau a rhwymedigaethau troseddau mewn perthynas â swyddogion gorfodi.

·Y gallu i gymhwyso cynlluniau cosbau gweinyddol.

26. Crëir yr un pwerau ar gyfer swyddogion gorfodi yng Nghymru a Lloegr.

27. Gall Gweinidogion Cymru benodi swyddogion gorfodi i Gymru a Swyddogion Pysgodfeydd Môr Prydeinig.

### Rhan 9 - Mynediad Arfordirol

28. Yn creu dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Natural England i sicrhau mynediad cyhoeddus gwell i'r arfordir o amgylch Lloegr, sut y dylid gweithredu'r ddyletswydd a sefydlu a chynnal a chadw llwybr o amgylch arfordir Lloegr.

29 Dim ond i Loegr y mae'r darpariaethau yn gymwys ar hyn o bryd. Rydym wedi mynegi diddordeb posibl mewn darpariaethau cysylltiedig i Gymru.

### Rhan 10 - Amrywiol

30. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau:

Yn ymwneud â chwmpas cylch gwaith Natural England

·Diwygiadau i Ddeddf Porthladdoedd 1964, a nodir yn Atodlen 12. Mae hyn yn galluogi'r Sefydliad Rheoli Morol i wneud Gorchmynion Diwygio Porthladdoedd a Gorchmynion Grymuso Porthladdoedd (gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru, pe byddai'r Gorchymyn yn effeithio ar y broses o gyflawni rhai o'u swyddogaethau).

**Rhan 11 - Darpariaethau Atodol**

31. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau atodol yn ymwneud â gwneud Gorchmynion, gan roi cyfarwyddyd a Dehongliad o ystyron o dan y Ddeddf.

### 3 - Cyflawni'r Mesur yng Nghymru

### Cyffredinol

1. Byddai'r darpariaethau yn y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft, pes deddfid, yn ychwanegu at y dulliau sydd ar gael i Gymru i gynllunio ar gyfer yr amgylchedd morol o amgylch Cymru, ei reoli a'i ddiogelu.

2. Sut y gall yr un dulliau a ddarparwyd gan y Mesur drafft i'w defnyddio yng Nghymru a Lloegr fod yn wahanol. Mewn rhai achosion, mae penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch sut y caiff rhai o'r dulliau eu defnyddio (e.e. Parthau Cadwraeth Morol fel Ardaloedd Tra Gwarchodedig).

3. Mewn sawl ardal, nid yw penderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y caiff y dulliau eu defnyddio. Bydd angen cyfraniad rhanddeiliaid a'r Pwyllgor yn y maes hwn i helpu i lywio'r broses o ddatblygu polisi Cymru a gweithredu'r Mesur.

### Cynllunio morol

4. Mae'r broses o greu system cynllunio morol yn ganolog i'r Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft.

5. Bwriedir llunio Datganiad Polisi Morol y bydd cymaint o weinyddiaethau â phosibl yn ei gymeradwyo (heb gynnwys yr Alban). Bydd y Datganiad hwn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer cynlluniau morol.

6. Bwriedir cytuno ar Ddatganiad Polisi Morol o fewn dwy flynedd i'r Mesur gael Cydsyniad Brenhinol.

7. Bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gynllunio yn nyfroedd tiriogaethol Cymru ond mae angen ystyried y cymysgedd cymhleth o gyfrifoldebau datganoledig ac annatganoledig yn yr ardal forol wrth ddatblygu system cynllunio gofodol morol.

8. Ar hyn o bryd, mae Atodlen 5 yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru geisio caniatâd am gynlluniau morol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hwn yn gymal dal at ddiben y Mesur drafft. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Defra i ddod i hyd i ffordd sy'n adlewyrchu'n well y cymysgedd cymhleth o faterion datganoledig ac annatganoledig yn y moroedd o amgylch Cymru a'r awydd gwleidyddol i gydweithredu. Cydnabuwyd hyn yn y Papur Polisi a ategodd y Mesur drafft.

9. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael cyngor gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru (PAMC) ar rai agweddau ar gynllunio morol yng Nghymru. Mae'r cyngor hwn yn awgrymu y dylid llunio un cynllun i Gymru, gyda manylion pellach mewn rhai ardaloedd, lle y bo angen. Mae'r holl gyngor ac ymateb y Gweinidog i'r cyngor ar gael ar dudalennau gwe Morol Llywodraeth Cynulliad Cymru (mae'r dolenni i'r dogfennau yn adran 1 o'r papur hwn o dan Dogfennau allweddol o ran datblygu'r Mesur Mynediad Morol ac Arfordirol).

10. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylai cynllunio morol yng Nghymru fod yn broses agored a thryloyw sy'n cynnwys rhanddeiliaid.

11. Dylai datblygu cynaliadwy fod wrth ei wraidd a dylai roi canolbwynt ar gyfer cydgysylltu polisi yn yr ardal forol.

12. Dylai'r broses o gyflawni gwaith cynllunio morol fod yn gymesur, yn atebol, yn gyson, yn dryloyw ac yn benodol.

### Cwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried

·A oes barn gan y Pwyllgor ar gyngor PAMC ar nifer y cynlluniau morol i Gymru - nid oedd gan unrhyw un o'r tri opsiwn a ystyriodd PAMC gefnogaeth unfrydol?

·Ceisir barn y Pwyllgor ar y mathau o ardaloedd yng Nghymru a allai gael budd yn sgîl cael rhagor o fanylion.

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Mesur Mynediad Morol ac Arfordirol, cynllunio morol ac yn bwydo eu barn i mewn i'r broses o ddatblygu cynlluniau morol yng Nghymru?

·A oes barn gan y Pwyllgor ar sut y gellir ystyried y cydadwaith cymhleth rhwng swyddogaethau datganoledig ac annatganoledig wrth gytuno ar gynlluniau morol i Gymru?

·Pa rôl y gallai Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru (PAMC) ei chwarae yn y broses ymgysylltu a chynllunio?

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gael cyngor arbenigol a barn leol i helpu i ddatblygu cynlluniau morol?

·Sut y gall Awdurdodau Lleol fwydo i mewn i'r broses o ddatblygu cynlluniau morol yng Nghymru? Pa ran y gallai CLlLC ei chwarae?

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio'n effeithlon gyda'n cymdogaeth yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon ac Ynys Manaw?

### Trwyddedu Morol

13. Bydd y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol yn uno nifer o gyfundrefnau trwyddedu morol gwahanol i greu proses gwneud cais symlach. Craidd y broses symlach newydd hon fydd uno trwyddedau Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd a Deddf Diogelu'r Arfordir. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am drwyddedau Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd, ond nid trwyddedau Deddf Diogelu'r Arfordir.

14. Yn Lloegr, bydd y Sefydliad Rheoli Morol yn gyfrifol am system wedi'i huno sy'n cynnwys darpariaethau presennol Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd, Deddf Diogelu'r Arfordir, trwyddedau agregau morol, Gorchmynion Diwygio Porthladdoedd, Gorchmynion Gorfodi Porthladdoedd a'r broses o roi trwyddedau ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy <100MW.

### Yr Uned Caniatadau Morol

15. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu Uned Caniatadau Morol yn y Gangen Forol i weinyddu trwyddedau morol y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt ac i weithredu fel un pwynt cyswllt ar eu cyfer.

16. Mae'r Uned Caniatadau Morol eisoes yn gyfrifol am geisiadau am drwyddedau carthu agregau morol. Adran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru a arferai ymdrin â'r ceisiadau hyn.

17. Bydd yr Uned Caniatadau Morol yn dod yn gyfrifol am weinyddu ceisiadau Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd yn ddiweddarach eleni. Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd sy'n gweinyddu trwyddedau Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd ar ran Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd.

18. Bydd yr Uned Caniatadau Morol hefyd yn dod yn gyfrifol am drwyddedau morol o ran Rhywogaethau Ewropeaidd a Ddiogelir. Ar hyn o bryd, Cangen Cadwraeth Natur Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymdrin â phob trwydded Rhywogaethau Ewropeaidd a Ddiogelir y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdani.

19. Pan ddeddfir y Mesur Mynediad Morol ac Arfordirol, bydd gan Weinidogion Cymru bwer trwyddedu wedi'i uno tebyg iawn i'r Sefydliad Rheoli Morol, ond Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

20. Ni fydd Cymru, ym mhob achos, yn gallu cael system mor syml ag a geir yn Lloegr, am nad Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am bob trwydded forol. Er enghraifft, pan fydd angen trwydded o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer fferm wynt alltraeth, yn Lloegr gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddatgymhwyso'r angen am drwydded y Ddeddf Forol, gan gyfarwyddo yn lle hynny y dylid ei hystyried o dan weithdrefn y Ddeddf Ynni (a chael trwydded gan naill ai'r Sefydliad Rheoli Morol neu'r IPC, gan ddibynnu ar faint y fferm wynt a gynigir). Yng Nghymru, bydd angen i'r ymgeisydd gael trwydded y Ddeddf Forol gan Weinidogion Cymru o hyd am agweddau'r cais yn ymwneud â'r amgylchedd a mordwyo. Mae hyn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cadw'r pwerau presennol sydd ganddynt ar hyn o bryd o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd am geisiadau adnewyddadwy morol.

21. Bydd yr Uned Caniatadau Morol yn cysylltu â'r cyrff trwyddedu eraill i sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod y broses o drwyddedu gweithgareddau perthnasol yn nyfroedd Cymru mor syml i'r ymgeisydd â phosibl.

22. Mae'r Uned Caniatadau Morol wrthi'n gweithio gydag Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd i sicrhau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cael yr un wybodaeth ag y gall Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd (ac yn ddiweddarach y Sefydliad Rheoli Morol) ei chael.

23. Mae'r Uned Caniatadau Morol hefyd yn meithrin cysylltiadau â Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu, sy'n rhoi cyngor technegol a gwyddonol i Asiantaeth y Môr

a Physgodfeydd ar geisiadau am drwyddedau.

24. Bydd Is-adran Gwasanaethau Technegol Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn rhoi cyngor sicrhau ansawdd a thechnegol i'r Uned Caniatadau Morol, yn yr un modd ag y mae'n ei roi i'r Gangen Forol gyfan.

25. Mae'r Uned Caniatadau Morol hefyd yn gweithio'n agos gyda thîm y Mesur yn Defra ar yr agweddau ar y Mesur sy'n ymwneud â thrwyddedu, y Sefydliad Rheoli Morol a gorfodi er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yr holl gyfrifoldebau a phwerau sydd eu hangen i ddarparu cyfundrefn trwyddedu morol fwy integredig yng Nghymru.

### 4 - Cadwraeth natur forol

26. Mae cadwraeth natur forol yn y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno system newydd o ardaloedd morol a ddiogelir, sef Parthau Cadwraeth Forol. Gellir defnyddio'r ardaloedd hyn i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol ac i ddiogelu prosesau ecosystemau.

27. Mae Parthau Cadwraeth Forol yn ddull o ddiogelu a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol. Er mwyn osgoi dyblygu, bydd y darpariaethau newydd o ran Parthau Cadwraeth Forol yn disodli'r darpariaethau o ran Gwarchodfeydd Natur Morol, megis yr un o amgylch Ynys Sgomer. Bwriedir y bydd y Mesur yn trosi Gwarchodfeydd Natur Morol yn Barthau Cadwraeth Forol yn awtomatig. Bydd is-ddeddfau Gwarchodfeydd Natur Morol yn parhau i fod mewn grym nes y gwneir gorchmynion cadwraeth er mwyn sicrhau y parheir i ddiogelu Gwarchodfeydd Natur Morol i'r un graddau.

28. Caiff Parthau Cadwraeth Forol eu dynodi er mwyn cyflawni amcanion cadwraeth penodol a chânt eu diogelu gan orchmynion cadwraeth forol.

29. Bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ddynodi Parthau Cadwraeth Forol yng Nghymru a gwneud gorchmynion cadwraeth forol.

30. Ar y cyd â Defra, mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad y paratoi nodiadau cyfarwyddyd drafft ar sut yr ydym yn disgwyl y caiff y darpariaethau cadwraeth natur yn Rhan 4 eu gweithredu. Caiff y nodiadau cyfarwyddyd drafft, i'w cyhoeddi cyn diwedd mis Mai, eu newid a'u diwygio wrth i'r Mesur fynd ar ei hynt drwy'r Senedd, ac wrth i bolisi manwl barhau i ddatblygu. Caiff canllawiau terfynol eu cyhoeddi ar ôl cael Cysyniad Brenhinol.

### Gwarchodfeydd Morol Tra Gwarchodedig

31. Caiff dros 70 y cant o forlin Cymru a thua 40 y cant o foroedd Cymru eu diogelu eisoes gan ryw fath o ddynodiad, megis Ardaloedd Gwarchod Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn nad oes angen dynodi ardal fwy o'r môr o amgylch Cymru.

32. Fodd bynnag, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cynghori bod angen diogelu rhai ardaloedd yn fwy. Mae hyn yn rhan o gyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar sut i weithredu dull ecosystemau ym moroedd Cymru. Mae'r cyngor yn argymell cyfuno'r defnydd o gynllunio morol, cilio rheoledig a diogelu rhai ardaloedd yn fwy nag a wneir ar hyn o bryd.

33. Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu defnyddio pwerau'r Parthau Cadwraeth Forol i ddechrau i sefydlu Gwarchodfeydd Morol Tra Gwarchodedig a fydd yn cyfrannu at adfer ecosystemau morol, gwella gwydnwch amgylcheddol a gwella ein dealltwriaeth o weithrediad naturiol.

34. Mae'r Athro Calum Roberts o Brifysgol Caerefrog yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar brosiect i ddatblygu proses i ddiffinio'r meini prawf a ddefnyddir i ddewis safleoedd posibl ac awgrymu proses ar gyfer dynodi safleoedd sy'n galluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan lawn.

35. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw ragdybiaethau o ran lle y bydd Gwarchodfeydd Morol Tra Gwarchodedig, er ein bod yn disgwyl y byddant mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig presennol yn bennaf, am fod y rhain wedi'u nodi eisoes fel yr ardaloedd pwysicaf yn ein moroedd.

36. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agwedd bwysig wrth ddatblygu'r broses o ddewis safleoedd a dynodi safleoedd unigol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylai barn rhanddeiliaid gael ei hystyried wrth benderfynu ar leoliad safleoedd.

37. Cynhaliodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ddigwyddiad i randdeiliaid (16 Ebrill 2008, Llandudno) i rannu eu syniadau cychwynnol ar y broses hon a sicrhau cyfraniad rhanddeiliaid. Aeth amrywiaeth eang o grwpiau defnyddwyr y môr i'r digwyddiad hwn gan gynnwys plymwyr, morwyr, pysgotwyr masnachol a hamdden, cyrff anllywodraethol amgylcheddol ac academyddion. Dim ond dechrau'r broses yw hyn a chynhelir ymgynghori pellach yn y dyfodol.

38. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i ddechrau'r broses o ddynodi Gwarchodfeydd Morol Tra Gwarchodedig cyn gynted â phosibl ar ôl pasio'r Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft

### Cwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod Gwarchodfeydd Morol Tra Gwarchodedig yn arwain at gymaint o fudd â phosibl - ar gyfer meysydd hamdden, twristiaeth, pysgota, addysg a threftadaeth yn ogystal â chadwraeth natur?

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau'r synergeddau mwyaf rhwng y safleoedd a ddiogelir am resymau cadwraeth natur a'r safleoedd a ddiogelir am resymau eraill (e.e. o dan y Mesur Diogelu Treftadaeth newydd)?

### 5 - Mynediad arfordirol

39. Mae Defra yn bwriadu gwella mynediad y cyhoedd i'r arfordir yn Lloegr gan ddefnyddio pwerau statudol newydd yn y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol a thrwy ddiwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae'r darpariaethau hyn yn y Mesur drafft.

40. Mae Rhaglen Gwella Mynediad Arfordirol ar waith eisoes yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar welliannau i'r seilwaith llwybrau er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd gael mynediad gwell i arfordir Cymru. Un o amcanion allweddol y rhaglen hon yw creu Llwybr Arfordirol newydd i Gymru Gyfan erbyn 2012. Dyma un o ymrwymiadau Cymru'n Un.

41. Caiff £2 filiwn ei ddyrannu i'r rhaglen mynediad arfordirol yng Nghymru ar gyfer 2008-2009. Dyrannwyd £1.5 miliwn i'r rhaglen yn 2007-2008. Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n cydgysylltu'r rhaglen ac mae'n helpu awdurdodau arfordirol lleol i wella mynediad arfordirol.

42. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar sut y gallai dull statudol o ran mynediad arfordirol weithio yng Nghymru mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth at y Rhaglen Gwella Mynediad Arfordirol bresennol ac yn ei hategu. Caiff yr adborth hwn ei gwblhau ar hyn o bryd.

43. Caiff cyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru ei ddefnyddio i lywio cynnwys papur ymgynghori ar y ffordd orau o weithredu dull statudol o ran mynediad arfordirol yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

44. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Defra i sicrhau y gellir cynnwys y newidiadau y gallai fod eu hangen i Gymru yn y Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft cyn ei gyflwyno gerbron y Senedd.

### Cwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ein Llwybr Arfordirol i Gymru Gyfan wedi'i brawfesur o safbwynt newid yn yr hinsawdd?

·Sut y gellir lleihau achosion o wrthdaro rhwng diogelu safleoedd cadwraeth pwysig ar yr arfordir a chreu Llwybr Arfordirol i Gymru Gyfan a'u datrys mewn ffyrdd sy'n galluogi pobl i fwynhau a gwerthfawrogi ein rhywogaethau a chynefinoedd morol ac arfordirol a ddiogelir?

### 6 - Pysgodfeydd

45. Mae'r darpariaethau o ran pysgodfeydd yn y Mesur yn gymwys ar y cyfan i Gymru a Lloegr.

46. Mae'r Mesur Mynediad Morol ac Arfordirol drafft yn cynnwys newidiadau i ddiweddaru ac ad-drefnu Pwyllgorau Pysgodfeydd y Môr yng Nghymru a Lloegr.

47. Nid oes rhaid i'r Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth yng Nghymru gael eu creu. Mae'r pwer i greu Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth yn bwer caniataol y gall un o Weinidogion Cymru ddewis ei ddefnyddio.

48. Caiff ymgynghoriad ar ddyfodol gwaith Rheoli a Gorfodi Pysgodfeydd y Glannau yng Nghymru ei gynnal ym mis Mehefin.

49. Mae swyddogion pysgodfeydd yn gweithio gyda Defra i sicrhau y gellir gwneud unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Mesur Morol drafft i ystyried yr ymgynghoriad a'r broses ddilynol o ad-drefnu pysgodfeydd y glannau yng Nghymru cyn cyflwyno'r Mesur.

### Creu Parth Pysgodfeydd i Gymru

50. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n ymgynghori â chynrychiolwyr y diwydiant pysgota ar gynigion i greu Parth Pysgodfeydd i Gymru y tu hwnt i'r terfyn presennol o 12 môr-filltir.

51. Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gymhwysedd am faterion o ran pysgodfeydd yn y môr tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru (h.y. hyd at 12 môr-filltir). Byddai'r cynnig i greu Parth Pysgodfeydd i Gymru yn ymestyn y cymhwysedd o ran pysgodfeydd i'r llinell ganol â Gweriniaeth Iwerddon i'r gorllewin, i Ynys Manaw yn y gogledd, ac i ardal fach yn y de-orllewin.

52. Ni fyddai'r Parth Pysgodfeydd arfaethedig i Gymru yn ymestyn y tu hwnt i ffin Terfynau Pysgodfeydd Prydain. Ni fyddai hyn, mewn unrhyw ffordd, yn effeithio ar derfynau môr Ynys Manaw na Gweriniaeth Iwerddon.

53. Ni fyddai cwmpas rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Parth Pysgodfeydd i Gymru yn wahanol i'w chymwyseddau presennol o fewn moroedd tiriogaethol. Ni fyddai'n ymestyn i swyddogaethau eraill nac yn ceisio newid unrhyw un o'r cytundebau presennol â phartneriaid ar faterion trawsffiniol.

54. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwneud unrhyw beth gwahanol yn y Parth Pysgodfeydd i Gymru nag a wneir ar hyn o bryd yn nyfroedd Cymru. I ddechrau, pan fydd y cynnig wedi'i gychwyn, rydym yn bwriadu diwygio'r Offerynnau Statudol Pysgodfeydd presennol i Gymru i gynnwys y 'Parth Pysgodfeydd i Gymru'.

55. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhagweld y byddai unrhyw bwerau deddfwriaethol yn y dyfodol mewn perthynas â Pharth Pysgodfeydd i Gymru at ddibenion penodol megis diogelu adnoddau pysgodfeydd a physgodfeydd penodol. Byddai'r swyddogaethau hynny sydd wedi'u cadw'n ôl yn y Deyrnas Unedig yn parhau i fod wedi'u cadw'n ôl a byddai'r setliad datganoli presennol yn cael ei gadw ym mhob agwedd arall. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i barchu hawliau llongau o rannau eraill o'r DU a'r UE ac ni fyddai'n eu trin yn wahanol i longau o Gymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhwym wrth ddeddfwriaeth yr UE ac ni chaiff wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws ag ymrwymiadau rhyngwladol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru.

56. Ni chredwn y byddai'r cynnig hwn yn gwneud y gwaith o reoli Môr Iwerddon cyfan yn fwy cymhleth. Am ardal fawr o Fôr Iwerddon, gallai ei wneud yn llai cymhleth o bosibl, lleihau nifer y sefydliadau sy'n gyfrifol am ei reoli a galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei chyfrifoldebau am reoli pysgodfeydd mewn ffordd fwy cydlynol.

57. Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod y mater hwn gyda Llywodraeth y DU, ac yn ystyried a allai'r Mesur arfaethedig fod yn ddull posibl o ddatblygu'r cynnig hwn.

58. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yw 6 Mehefin.

### Cyflawni

59. Mae Defra yn creu Sefydliad Rheoli Morol i gyflawni llawer o'r gweithgareddau a gynigir mewn adrannau eraill o'r Papur Gwyn, gan gynnwys cynllunio gofodol a gorfodi cadwraeth natur. Bydd y corff presennol, sef Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd, yn sail i'r Sefydliad Rheoli Morol newydd.

60. Dim ond mewn perthynas â materion annatganoledig y bydd gan y Sefydliad Rheoli Morol swyddogaethau yng Nghymru. Bydd ganddo swyddogaethau hefyd yn Lloegr ac yn nyfroedd y DU y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol Cymru (> 12 môr-filltir).

61. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y ffordd orau o ddatblygu gwaith rheoli morol yng Nghymru. Ni fydd hyn yn cynnwys creu sefydliad newydd - nid dyma'r peth cywir i'w wneud yng Nghymru.

62. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisi o ddod â gwaith datblygu polisïau a gwaith cyflawni polisïau yn nes at ei gilydd, fel y'i cyflawnwyd drwy uno Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad megis Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru i fod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw dod yn rhan o Gorff Cyhoeddus Anadrannol i Gymru a Lloegr neu'r DU, megis y Sefydliad Rheoli Morol, yn gyson â'r polisi hwn.

63. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio gwella effeithlonrwydd a symleiddio prosesau gweithredu yn yr un modd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ag y mae Defra yn ceisio ei wneud drwy greu'r Sefydliad Rheoli Morol.

64. Trosglwyddodd staff pysgodfeydd Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd sy'n gweithio yng Nghymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2008.

65. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drefniant ag Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd ar hyn o bryd i gyflawni rhai gweithgareddau gorfodi pysgodfeydd yn nyfroedd Cymru. Bydd y trefniant hwn yn parhau ar ôl pasio'r Mesur Morol a Mynediad Arfordirol drafft a chaiff y gweithgareddau hyn eu cyflawni gan y Sefydliad Rheoli Morol ar ran Lywodraeth Cynulliad Cymru.

66. Mae'r broses o greu'r Uned Caniatadau Morol i gyflawni gwaith trwyddedu morol yng Nghymru, ynghyd â throsglwyddo staff o Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio tuag at y nod o ddod â gwaith datblygu polisïau a gwaith cyflawni polisïau yn nes at ei gilydd, drwy gynyddu a gwella galluoedd cyflawni Llywodraeth Cynulliad Cymru.

67. Gallai Gweinidogion Cymru ofyn i'r Sefydliad Rheoli Morol gyflawni rhai gweithgareddau yn nyfroedd Cymru ar eu rhan. Yn yr un modd, gallai'r Sefydliad Rheoli Morol ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflawni gweithgareddau annatganoledig yn nyfroedd Cymru ar ran y Sefydliad Rheoli Morol.

### Gorfodi

68. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu penodi Swyddogion Gorfodi i Gymru ynghyd â Swyddogion Pysgodfeydd Môr Prydeinig.

69. Ceir cyfleoedd i bob asiantaeth gyflawni a Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'i gilydd i gyflawni gwaith pysgodfeydd, cadwraeth natur, trwyddedu a gorfodi yng Nghymru. Rydym yn ymchwilio i'r cyfleoedd hyn ar hyn o bryd.

70. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu cosbau sifil am droseddau fel y gellir cymhwyso cosbau ariannol am fân droseddau, yn hytrach na gorfod cynnal achos llys ar gyfer pob trosedd.

71. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn mai dim ond fel y cam olaf y dylid cymhwyso cosbau sifil ac y dylid ystyried dulliau gwirfoddol, megis codau ymddygiad i ddefnyddwyr y môr (e.e. Cod Morol Sir Benfro, Siarter Awyr Agored Sir Benfro) yn llawn, lle y bo'n briodol.

72. Rydym yn gweithio gyda Defra a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i sicrhau y bydd yn bosibl cydweithredu'n drawsffiniol ac y bydd yn bosibl i swyddogion yn holl ddyfroedd y DU ddefnyddi'r pwerau gorfodi cyffredin. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y rhai sy'n cyflawni troseddau yn gallu osgoi swyddogion gorfodi drwy adael yr ardal lle y mae'r swyddogion gorfodi yn gweithredu fel arfer (e.e. drwy ddianc o ddyfroedd tiriogaethol Cymru a mynd i ddyfroedd tiriogaethol Lloegr).

### Anghenion o ran data a gwybodaeth

73. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Defra ac adrannau eraill o'r Llywodraeth ar elfennau megis y broses o ddatblygu Amcanion Morol ac fel rhan o Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU i sicrhau bod dull rheoli cydlynol ledled Cymru a Lloegr. Bwriedir cyhoeddi ymgynghoriad ar Amcanion Morol Lefel Uchel yn yr Haf.

74 Cyflawni rhai agweddau ar waith rheoli, gorfodi a chynllunio morol yn well ar lefel y DU. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylid cyflawni materion megis gwaith ymchwilio, casglu a storio data ar raddfa fawr mewn ffordd gydgysylltiedig ledled y DU.

75 .Bydd cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU a gwaith cydgysylltu data sawl partneriaeth data megis y Rhwydwaith Data a Gwybodaeth Amgylcheddol Morol (MEDIN) yn sicrhau yr ystyrir anghenion Cymru wrth fonitro, casglu, storio a defnyddio data a gwaith ymchwil morol.

Cwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag asiantau cyflawni eraill yng Nghymru (e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd) i wella effeithlonrwydd wrth gyflawni a gorfodi'r Mesur?

·Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru annog y defnydd cyfrifol o foroedd Cymru er mwynhad pawb?

(1)
http://www.coastms.co.uk/Conferences/Outputs%20and%20Reports/Coastal%20Futures%202005%20Post%20Conference/CF2005%20Minister's%20Key%20Note%20Presentation%20Morley.pdf
(2) http://www.wwf.org.uk/filelibrary/pdf/draftmarinebill.pdf
(3) http://www.defra.gov.uk/environment/water/marine/uk/stewardship/index.htm
(4) http://www.rcep.org.uk/fishreport.htm
(5) http://www.defra.gov.uk/environment/water/marine/uk/stateofsea/index.htm
(6) http://www.defra.gov.uk/marine/pdf/legislation/mb-consult290306.pdf
(7) http://www.defra.gov.uk/marine/pdf/legislation/mb-summaryr.pdf
(8) http://new.wales.gov.uk/desh/publications/enviroconvers/marinebill/Summary?lang=en
(9) http://www.defra.gov.uk/marine/pdf/legislation/marinebill-whitepaper07.pdf
(10) http://www.defra.gov.uk/marine/pdf/legislation/marinebill-whitepaper07-responses.pdf

(11) http://new.wales.gov.uk/desh/publications/enviroconvers/marinebill/responses?lang=en
(12) http://new.wales.gov.uk/desh/publications/enviroconvers/marinebill/Baseline?lang=en
(13) http://new.wales.gov.uk/desh/publications/enviroconvers/marinebill/Options?lang=en
(14) http://new.wales.gov.uk/desh/publications/enviroconvers/marinebill/wcmpadvice?lang=en
(15) http://new.wales.gov.uk/desh/publications/enviroconvers/marinebill/letter?lang=en
(16) http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/marinebill